**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SL-2065

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

7 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

**RHEOLIADAU ARDRETHU ANNOMESTIG (SYMIAU A GODIR) 2025**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am y posibilrwydd y bydd angen cyflwyno'r Rheoliadau uchod. Os penderfynir bwrw ymlaen, bydd angen cyflwyno'r Rheoliadau gerbron y Pwyllgor gydag amser cyfyngedig i graffu arnynt.

Yn rhan o'r broses ailbrisio ardrethi annomestig, ystyrir yr effaith ar dalwyr ardrethi o ran newidiadau i'w hatebolrwyddau. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyflwyno rhyddhad trosiannol drwy reoliadau o dan adrannau 58 a 143A(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Rhaid i reoliadau o'r fath ddilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft a bod mewn grym cyn 1 Ionawr y flwyddyn ailbrisio. Bydd yr ailbrisio nesaf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026 ac, felly, rhaid i reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr 2025 fan hwyraf.

Nid wyf yn meddu ar y manylion perthnasol eto i lywio penderfyniad cytbwys ynghylch darparu rhyddhad trosiannol. Bydd yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael ar 26 Tachwedd, yn dilyn Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU a chyhoeddi rhestr ardrethu ddrafft 2026. Yn dilyn Cyllideb yr Hydref, byddaf yn gwneud penderfyniad polisi cyn gynted â phosibl, gan ystyried sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ac effaith yr ailbrisio. O ystyried costau posibl unrhyw ryddhad trosiannol, byddai'n anghyfrifol imi wneud hynny cyn bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael.

Os byddaf yn penderfynu bod rhyddhad trosiannol yn briodol, bydd Rheoliadau drafft yn cael eu datblygu'n gyflym, gyda'r bwriad o'u trafod ar 16 Rhagfyr. Mae hyn yn angenrheidiol i fodloni'r dyddiad targed ar gyfer cychwyn, sef 31 Rhagfyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn anffodus, nid yw'r Rheoliadau drafft yn debygol o fod ar gael i'w gosod tan 9 Rhagfyr. Rwy'n cydnabod bod hyn yn arwain at amserlen gywasgedig iawn ar gyfer ystyried y Rheoliadau drafft. O ganlyniad, rwy'n eich hysbysu am yr amserlenni posibl ac yn gofyn am gymorth y Pwyllgor i gyflymu'r broses graffu ar y Rheoliadau drafft, os bydd angen.

Rwy’n ymddiheuro i'r Pwyllgor am y cyfuniad hwn o ddigwyddiadau, er eu bod i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. O ystyried y cefndir hwnnw, rwy’n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn deall yr amgylchiadau sy'n golygu bod angen yr amserlen gywasgedig hon ar gyfer cynnal y gwaith craffu, ac y bydd yn gallu rhannu ei safbwyntiau mewn llai o amser.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Elin Jones AS, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, John Griffiths AS, er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language